

Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru – Crynodeb Archwilio Blynyddol 2025

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2026



Cynnwys

Cynnwys	2
Rhagair	4
Ciplun archwilio	6
Canfyddiadau'r archwiliad o'r cyfrifon	8
Canfyddiadau archwilio perfformiad	10
Ansawdd archwilio	13
Rhagor o wybodaeth	14

Mae'r ddogfen hon wedi'i pharatoi fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol, Swyddfa Archwilio Cymru a staff Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn unrhyw atebolrwydd mewn perthynas ag unrhyw ddibyniaeth neu ddefnydd arall o'r ddogfen hon gan unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu rhinwedd unigol, nac unrhyw ddefnydd gan unrhyw drydydd parti.

I gael rhagor o wybodaeth, neu os oes angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau arnoch mewn fformat a/neu iaith arall, cysylltwch â ni dros y ffôn ar 029 2032 0500, neu e-bostiwch post@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Rhagair



Adrian Crompton

Archwilydd
Cyffredinol Cymru

Mae'n bleser gennyf rannu fy Grynoded Archwilio Blynyddol ar gyfer Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru (yr Ymddiriedolaeth). Mae'n crynhoi prif ganfyddiadau fy ngwaith archwilio yn 2025 a wnaed i gyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Rhoddais farn ar a oedd y cyfrifon wedi'u paratoi'n briodol ac a roddodd farn wir a theg, ym mhob agwedd faterol, ac a yw gwariant ac incwm wedi'u defnyddio at y dibenion a fwriadwyd ac yn unol â'r awdurdodau sy'n eich

llywodraethu.

Mae fy nhîm archwilio hefyd wedi asesu a yw'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud trefniadau priodol ar gyfer sicrhau economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau, ac wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Wrth wneud hynny, mae fy nhîm archwilio wedi ymgymryd â'm gwaith asesu strwythuredig blynyddol ac wedi adolygu gwasanaethau gofal wedi'i gynllunio, a gwasanaethau gofal brys ac argyfwng. Fel y nodir yn fy nghynllun archwilio, mae'r adolygiadau hyn wedi'u cynnal yn unol â safonau Sefydliad Rhwngwladol y Goruchaf Sefydliadau Archwilio (INTOSAI).

Mae'r canfyddiadau archwilio manwl ar gyfer pob un o'm hadolygiadau wedi'u nodi yn yr adroddiadau priodol y mae fy nhîm archwilio wedi'u cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio trwy gydol y flwyddyn. Mae'r adroddiadau archwilio perfformiad ar gael ar wefan Archwilio Cymru ac mae dolenni pellach ar gael yn y crynodeb.

Dylid rhannu'r Crynodeb Archwilio Blynyddol gyda'r Bwrdd. Yna byddaf yn rhoi'r crynodeb ar gael i'r cyhoedd ar wefan Archwilio Cymru.

Hoffwn estyn fy niolchgarwch i staff y Bwrdd Iechyd am eu cymorth a'u cydweithrediad drwy gydol fy archwiliad.

Ciplun archwilio



Derbyniais y cyfrifon drafft yn unol â'r dyddiad cau statudol ar 2 Mai 2025. Roedd y cyfrifon drafft a'r papurau gwaith ategol o ansawdd da.



Yn unol â'r dyddiad cau statudol o 30 Mehefin 2025, cyhoeddais farn wirioneddol a theg heb gymhwysterau, a barn rheoleiddrwydd anghymwys. Nid oedd unrhyw gamddatganiadau heb eu cywiro yn y cyfrifon, ac nid oedd unrhyw faterion arwyddocaol eraill i'w hadrodd.




Canfu fy ngwaith archwilio perfformiad fod gan yr Ymddiriedolaeth Fwrdd effeithiol a threfniadau llywodraethu corfforaethol cyffredinol cadarn i oruchwylio cynllunio a'i defnydd o adnoddau. Cymhwysodd hefyd yr egwyddor datblygu cynaliadwy yn briodol wrth osod ac adolygu ei amcanion llesiant.

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth weithredu fy argymhellion archwilio 2022 ar lywodraethu ansawdd, yn enwedig cryfhau ei threfniadau ar gyfer rheoli risg, archwilio clinigol ac ymgorffori'r Dyletswyddau Gonestrwydd ac Ansawdd.



Gwnaeth fy nhîm archwilio saith argymhelliad i'r Ymddiriedolaeth. Mae'r rhain yn ymwneud â'r broses gymeradwyo ar gyfer penodiadau gweithredol dros dro, mynd i'r afael â gwendidau rheoli TG, gwella tryloywder y camau gweithredu, adnoddau ac effaith sy'n gysylltiedig â chyflawni amcanion llesiant, profi ymwybyddiaeth a chydymffurfiaeth â pholisïau, a bod yn fwy eglur am newidiadau a wneir mewn ymateb i adborth defnyddwyr gwasanaeth.



Mae rhywfaint o waith heb ei wneud o hyd o'm Cynlluniau Archwilio blaenorol. Mae fy nhîm yn disgwyl cwblhau'r gwaith hwn yn sylweddol erbyn mis Mawrth 2026.

Canfyddiadau'r archwiliad o'r cyfrifon

Mae paratoi cyfrifon blynyddol yn rhan hanfodol o ddangos stiwardiaeth arian cyhoeddus. Mae'r cyfrifon yn dangos perfformiad ariannol y sefydliad ac yn nodi ei asedau net, costau gweithredu net, enillion a cholledion, a llif arian. Mae fy archwiliad blynyddol o'r cyfrifon hynny yn rhoi barn ar a yw'r cyfrifon wedi'u paratoi'n briodol ac yn rhoi golwg wir a theg, ym mhob agwedd sylweddol, a'r defnydd priodol ('rheoleiddrwydd') o arian cyhoeddus.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau wrth archwilio'r cyfrifon yn fy nghyhoeddiadau [Datganiad o Gyfrifoldebau](#), sydd ar gael ar wefan [Archwilio Cymru](#).

Cyflwynwyd y cyfrifon drafft i'w harchwilio ar 2 Mai 2025. Roedd hyn yn unol â'r dyddiad cau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Roedd ansawdd y cyfrifon drafft a gyflwynwyd i'w harchwilio o ansawdd da.

Fy marn archwilio

Rhaid i mi adrodd materion sy'n codi o fy ngwaith i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu i'w hystyried cyn i mi gyhoeddi fy marn archwilio ar y cyfrifon. Adroddais y materion hyn yn fy Adroddiad Archwilio Cyfrifon i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol ar 23 Mehefin 2025.

Gwir a theg

Gwnaed nifer o newidiadau i'r cyfrifon drafft sy'n deillio o fy ngwaith archwilio.

Nid oedd unrhyw gamddatganiadau heb eu cywiro.

Nid oedd unrhyw faterion arwyddocaol eraill i'w hadrodd.

Nid oedd fy ngwaith yn nodi unrhyw wendidau materol mewn rheolaethau mewnol (fel sy'n berthnasol i'm harchwiliad), ond gwnes ddau argymhelliaid a oedd yn ymwneud â'r broses gymeradwyo ar gyfer penodiadau gweithredol interim a rhai gwendidau rheoli TG. Bydd cynnydd yn erbyn yr argymhellion hyn yn cael ei fonitro yn ystod archwiliad y flwyddyn nesaf.

Daeth i'r casgliad bod cyfrifon yr Ymddiriedolaeth wedi'u paratoi'n briodol ac yn gywir yn sylweddol a chyhoeddi barn archwilio anghymwys arnynt.

Rheoleiddrwydd

Caniateir i'r Ymddiriedolaeth dderbyn incwm a gwariant mewn ffyrdd sy'n dilyn y rheolau a osodwyd gan yr awdurdodau sy'n ei llywodraethu.

Ymhellach, lle nad yw Ymddiriedolaeth yn cyflawni cydbwysedd ariannol, mae ei gwariant yn fwy na'i phwerau i wario ac felly mae'n rhaid i mi gymhwyso fy marn rheolaidd.

Cyflawnodd yr Ymddiriedolaeth ei dyletswydd ariannol gyntaf i dorri hyd yn oed dros gyfnod o dair blynedd a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025. Roedd yr holl drafodion ariannol materol eraill yn unol â'r awdurdodau ac fe'u defnyddiwyd at y dibenion a fwriadwyd, felly rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod ar reoleiddrwydd y trafodion ariannol yng nghyfrifon 2024-25 yr Ymddiriedolaeth. Cyflawnodd yr Ymddiriedolaeth ei hail ddyletswydd ariannol i gael cynllun tair blynedd cymeradwy.

Cyfrifon Cyfan y Llywodraeth

Fe wnes i hefyd adolygiad o ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan. Daethom i'r casgliad bod y wybodaeth cydgrynhoi gwrthbarti yn gyson â sefyllfa ariannol yr Ymddiriedolaeth ar 31 Mawrth 2025 a pharatowyd y ffurflen yn unol â chyfarwyddiadau'r Trysorlys.

Canfyddiadau archwilio perfformiad

Asesiad strwythuredig

Edrychodd fy nhîm ar ba mor dda y mae'r Ymddiriedolaeth yn cael ei llywodraethu ac a yw'n gwneud y defnydd gorau o'i hadnoddau.

Canfyddais fod gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau llywodraethu corfforaethol da sy'n galluogi'r Bwrdd a'i bwyllgorau i redeg yn effeithiol ac yn dryloyw. Mae gwybodaeth o ansawdd uchel yn parhau i gefnogi craffu. Mae ymrwymiad parhaus i glywed gan staff a defnyddwyr gwasanaeth gyda threfniadau gwella parhaus i gefnogi hyn.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i gryfhau ei systemau sicrwydd corfforaethol sy'n gysylltiedig â risg, perfformiad ac argymhellion olrhain.

Mae gan yr Ymddiriedolaeth ymagwedd gorfforaethol gadarn at ddatblygu a monitro cyflwyno Cynlluniau Tymor Canolig Integredig (IMTPs). Mae mapiau llwybr yr Ymddiriedolaeth yn darparu offeryn defnyddiol ar gyfer cysylltu blaenoriaethau strategol â gweithredoedd tymor byr, canolig a hirdymor, gan sicrhau bod cerrig milltir cyflawni yn cyfrannu at y nodau tymor hir. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cryfhau ei dull o ddangos effeithiau cyflawni ei chynlluniau.

Cyflawnodd yr Ymddiriedolaeth ei dyletswyddau ariannol yn 2024-25 ac mae'n rhagweld y bydd yn torri hyd yn oed yn 2025-26. Mae cynllunio ariannol yn gryf ac yn cefnogi cyflawni ei flaenoriaethau strategol. Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i gael rheolaethau ariannol da ar waith, a threfniadau da i fonitro ac adrodd ar ei sefyllfa ariannol.

Nid wyf wedi gwneud unrhyw argymhellion newydd er bod un argymhelliad yn dal i fod heb ei wneud o flwyddyn flaenorol.

Adolygu'r trefniadau ar gyfer pennu a monitro amcanion llesiant

Edrychodd fy nhîm ar i ba raddau y gweithredodd yr Ymddiriedolaeth yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod ei hamcanion llesiant.

Canfyddais fod yr Ymddiriedolaeth wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Roedd gosod amcanion llesiant wedi'i ategu gan ymgysylltiad sylweddol a deallusrwydd cadarn. Gwnaed gwaith i ddatblygu mapiau llwybrau i gyfieithu'r amcanion eang yn gamau cyflawni ymarferol.

Fodd bynnag, ar adeg adrodd (Ionawr 2025), roedd wedi cymryd peth amser i'r Ymddiriedolaeth ddatblygu ei mapiau llwybrau, ac roedd angen mwy o waith i ddarparu cysylltiadau cliriach rhwng dyraniadau adnoddau a chyflawni'r amcanion. Ar y pryd, tra bod trefniadau monitro ac adrodd ar waith, a chatau ar y gweill i gryfhau adrodd perfformiad, roedd mwy i'w wneud i ddarparu mwy o dryloywder a dangos effaith cyflawni.

Fe wnes dri argymhelliad sy'n canolbwyntio ar:

- tryloywder camau gweithredu i gyflawni amcanion llesiant;
- eglurder yr adnoddau sydd eu hangen i gyflawni amcanion llesiant; a
- chryfhau tryloywder cyflawni amcanion llesiant a'r effaith gysylltiedig.

Gwella llywodraethu ansawdd

Edrychodd fy nhîm ar y cynnydd a wnaed gan yr Ymddiriedolaeth wrth weithredu argymhellion archwilio o fy Adolygiad o Lywodraethu Ansawdd 2022.

Canfyddais fod yr Ymddiriedolaeth wedi gweithredu'r rhan fwyaf o'r argymhellion archwilio blaenorol, gyda chynnydd sylweddol wedi'i wneud o ran gwella trefniadau ar gyfer rheoli risg ac archwilio clinigol. Mae gan yr Ymddiriedolaeth ymagwedd gref at asesiadau effaith cydraddoldeb ar waith, ac mae ei chyfraddau cydymffurfio ag arfarniadau a hyfforddiant staff wedi gwella. Mae'r Ymddiriedolaeth yn darparu mwy o oruchwyliaeth o is-grwpiau pwyllgorau ac mae ei dull o gasglu adborth defnyddwyr gwasanaeth a staff wedi gwella.

Er bod yr Ymddiriedolaeth wedi cryfhau ei dull o ddiweddarau a rhannu polisiâu, mae cyfleoedd i asesu ymwybyddiaeth a chydymffurfiaeth polisi staff yn fwy rhagweithiol. Gallai'r Ymddiriedolaeth hefyd fod yn fwy eglur wrth adrodd am y camau y mae'n eu cymryd mewn ymateb i adborth defnyddwyr gwasanaeth.

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth baratoi ar gyfer ac ymgorffori'r Dyletswyddau Ansawdd a Gonestrwydd statudol. Mae mecanweithiau cynllunio strategol, ymrwymiad arweinyddiaeth a llywodraethu ar waith, ac mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud ymdrechion

gweladwy i godi ymwybyddiaeth ac alinio ei fframweithiau gwella yn unol â hynny. Mae angen i'r Ymddiriedolaeth wella'r defnydd o hyfforddiant staff sy'n ymwneud â'r dyletswyddau, ond mae ganddi gynlluniau ar waith i fynd i'r afael â hyn.

Fe wnes i ddau argymhelliad newydd, sy'n disodli argymhellion 2022 sy'n weddill. Mae'r argymhellion newydd yn canolbwyntio ar:

- profi ymwybyddiaeth o, a chydymffurfiaeth, â pholisïau llywodraethu ansawdd; ac
- bod yn fwy eglur a thryloyw ynghylch adrodd am newidiadau a wnaed mewn ymateb i adborth defnyddwyr gwasanaeth.

Mae gwaith archwilio perfformiad yn dal i fynd rhagddo

Ar adeg yr adrodd, roedd yr adolygiadau canlynol o Gynlluniau Archwilio 2024 a 2025 yn dal i fynd rhagddo yn yr Ymddiriedolaeth:

- adolygiad o drawsnewid digidol (2024); ac
- adolygiad dilynol o wasanaethau sgrinio (2025).

Ansawdd archwilio


Mae ein hymrwymiad i ansawdd archwilio yn Archwilio Cymru yn absoliwt. Credwn fod ansawdd archwilio yn ymwneud â chael pethau'n iawn y tro cyntaf.

Rydym yn defnyddio model tair llinell o sicrwydd i ddangos sut rydym yn cyflawni hyn. Rydym wedi sefydlu Pwyllgor Ansawdd Archwilio i gydlyn a goruchwyllo'r trefniadau hynny. Rydym yn destun craffu annibynnol ar ein gwaith gan Sefydliad y Cyfrifwyr Siartredig yng Nghymru a Lloegr ac mae Cadeirydd ein Bwrdd yn gweithredu fel cyswllt i'n Bwrdd ar ansawdd archwilio. Am ragor o wybodaeth gweler [Adroddiad Ansawdd Archwilio 2024](#).




Ein Pobl

- Dewis y tîm cywir
- Defnyddio arbenigwyr
- - Goruchwyliaeth ac adolygu



Trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd archwilio Dewis y tîm cywir

- Plattform archwilio
- Moeseg
- Canllawiau
- Diwylliant
- Dysgu a datblygu
- Arweinyddiaeth
- Cymorth technegol



Sicrwydd annibynnol

- Adolygiadau Ansawdd Allanol
- Adolygiadau â thema
- Adolygiadau oer
- Dadansoddiad o wraidd y problem
- Adolygiad gan gymheiriaid
- Pwyllgor Ansawdd Archwilio
- Monitro allanol

Rhagor o wybodaeth

Mae gan Archwilio Cymru ystod o adnoddau i gefnogi'r gwaith o graffu ar gyrff cyhoeddus Cymru, a'u cefnogi i barhau i wella'r gwasanaethau y maent yn eu darparu i bobl Cymru.

Ewch i'n gwefan i ddod o hyd i:



Ein cyhoeddiadau sy'n ymdrin â'n gwaith archwilio mewn cyrff cyhoeddus.



Gwybodaeth am ein gwaith sydd ar ddod a'n blaenraglen waith ar gyfer archwilio perfformiad.



Offer data i'ch helpu i ddeall tueddiadau gwariant cyhoeddus yn well.



Manylion ein gwaith a'n digwyddiadau Arfer Da, gan gynnwys rhannu arferion sy'n dod i'r amlwg a mewnwediadau o'n gwaith archwilio.



Ein cylchlythyr sy'n rhoi diweddariadau rheolaidd i chi ar ein gwaith archwilio gwasanaethau cyhoeddus, arfer da, a digwyddiadau.



Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a
galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and
telephone calls in Welsh and English.

